# YR ATODLENNI

## [F1 ATODLEN 3A

Rheoliad 17(5)

## GOFYNION Y CYFEIRIR ATYNT YN RHEOLIAD 17(5)

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Atodlni. 3A-3D wedi eu mewnosod (13.4.2010) gan Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2010 (O.S. 2010/893), rhl. 1, **Atod. 2**

Y gofynion yw—

(a) bod y lladd-dy ar 31 Rhagfyr 2005 yn un a drwyddedwyd yn lladd-dy trwybwn isel o dan Reoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Arolygu) 1995(**1**);

(b) mai dim ond yn anaml y bydd cyflwr cig sy'n tarddu o garnolion domestig a gigyddwyd yn y lladd-dy yn ei gwneud yn angenrheidiol dal gafael ar y cig hwnnw ar ôl arolygiad post-mortem er mwyn i'r milfeddyg swyddogol wneud arolygiad pellach ohono;

(c) pan fo arolygiad pellach o'r fath yn angenrheidiol ym marn y milfeddyg swyddogol, bod y cig o dan sylw yn cael ei ddifa neu fod gafael yn cael ei ddal arno mewn cyfleuster dal gafael amgen yng nghyffiniau'r lladd-dy;

(ch) pan fo cig yn cael ei gludo o'r lladd-dy i'r cyfleuster dal gafael amgen y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (c), rhaid ei farcio â'r geiriau 'detained meat' a rhaid bod gydag ef ddogfen sydd wedi ei llofnodi gan y milfeddyg swyddogol, sy'n datgan bod y cig yn gig y mae gafael yn cael ei ddal arno ac sy'n cynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(i) enw a chyfeiriad y lladd-dy gwreiddiol;

(ii) enw a chyfeiriad y cyfleuster dal gafael amgen;

(iii) nifer y carcasau neu'r darnau; a

(iv) rhywogaeth yr anifail; a

(d) nad oes unrhyw waith prosesu at ddibenion eu bwyta gan bobl yn cael ei wneud ar anifeiliaid buchol y mae'n ofynnol, yn unol â phwynt 2 Rhan I o Bennod A o Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned, eu profi i weld a oes BSE arnynt adeg eu cigydda neu anifeiliaid o deulu'r mochyn (anifeiliaid hela domestig a rhai a ffermir), uncarnolion a rhywogaethau eraill anifeiliaid a allai gael *Trichinosis* y mae'n ofynnol, [F2 o dan Erthygl 18(2) o Reoliad 2017/625 fel y'i darllenir gydag Erthygl 31 o Reoliad 2019/627, eu harchwilio i weld a oes *Trichinella* arnynt yn unol ag Erthygl 2 o Reoliad 2015/1375].

At ddibenion yr Atodlen hon ystyr "Rheoliad TSE y Gymuned" ("*Community TSE Regulation*") yw [F3 Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cygor sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol(**5**), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/893] ac fel y'i darllenir gyda'r canlynol—

(**1**) OJ Rhif L140, 12.5.98, t.10.
(**5**) OJ Rhif L173, 6.7.90, t.5.

(i) Penderfyniad y Comisiwn 2007/411/EC sy'n gwahardd rhoi ar y farchnad gynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid buchol a anwyd neu a fagwyd o fewn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996 at unrhyw ddiben ac sy'n esemptio'r anifeiliaid hynny rhag mesurau rheoli a difodi penodol a osodir yn Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 ac yn diddymu Penderfyniad 2005/598/EC(**2**),

(ii) Penderfyniad y Comisiwn 2007/453/EC sy'n sefydlu statws BSE Aelod-wladwriaethau neu drydydd gwledydd neu ranbarthau ohonynt yn unol â'u risg BSE(**3**), a

(iii) Penderfyniad y Comisiwn 2009/719/EC yn awdurdodi rhai Aelod-wladwriaethau i adolygu eu rhaglenni blynyddol ar gyfer monitro BSE(**4**) fel y diwygiwyd y Penderfyniad hwnnw gan Benderfyniad y Comisiwn 2010/66/EU sy'n diwygio Penderfyniad 2009/719/EC yn awdurdodi rhai Aelod-wladwriaethau i adolygu eu rhaglenni blynyddol ar gyfer monitro BSE(**5**).**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Geiriau yn Atod. 3A(d) wedi eu hamnewid (14.12.2019) gan Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019 (O.S. 2019/1482), rhlau. 1(1), **7**

**F3** Geiriau yn Atod. 3A wedi eu hamnewid (26.7.2018) gan Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/806), rhlau. 1(3), **11(7)**

(**2**) O.S. 1996/1499, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) OJ Rhif L173, 6.7.90, t.1.
(**4**) OJ Rhif L157, 30.5.98, t.12.
(**5**) OJ Rhif L173, 6.7.90, t.5.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, ATODLEN 3A.